

Ysgolion yr 21ain Ganrif – Crynodeb o'r Ymgynghoriad ynghylch Plant a Phobl Ifanc

Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod 14 Medi– 26 Hydref 2020



Ysgolion yr 21ain Ganrif 21st Century Schools



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Helo, fy enw i yw **Vision** a
dyma fy nghi, **K9-2.1**
Rydyn ni yma i drafod
prosiect cyffrous gyda chi
a hoffen ni glywed eich
barn!



Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

Yr hyn y byddwn yn ei drafod:

- Beth mae'r cyflwyniad yma yn ei gynnwys?
- Beth yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ?
- Beth mae'r prosiect yn ei gynnig?
- Gyda phwy arall rydyn ni'n siarad?
- Sut gallwch chi leisio eich barn?
- Pam ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n clywed eich barn?
- Pam ein bod ni am gynnal y prosiect?
- A fydd hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?
- Sut bydd y prosiect yn effeithio ar bethau fel...
 - ✓ Addysg ac Ansawdd
 - ✓ Llywodraethu a Staffio
 - ✓ Cyllid
 - ✓ Yr Iaith Gymraeg
 - ✓ Teithio a'r Amgylchedd
 - ✓ Cydraddoldebau
 - ✓ Cyfleusterau Arbenigol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol
 - ✓ Y Gymuned
- Beth fydd y manteision a'r anfanteision?
- A oes unrhyw risgiau?
- Pam dewis y prosiect yma?
- Am ba mor hir y byddwn ni'n casglu barn pobl?
- Beth fydd yn digwydd nesaf?



Cyflwyniad

- Beth mae'r cyflwyniad yma yn ei gynnwys?
- Beth yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ?

- ✓ Mae Cyngor Caerffili yn awyddus i wella amodau'r ysgol i godi safonau a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn.
- ✓ Weithiau, gall ysgolion gael eu moderneiddio, eu trwsio, eu hadnewyddu neu eu hehangu, neu gellir hyd yn oed adeiladu ysgol newydd yn gyfan gwbl.
- ✓ Mae Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif yn bartneriaeth rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru.



Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools





Cyflwyniad

- Beth mae'r cyflwyniad yma yn ei gynnwys?
- Beth yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ?

- ✓ Mae gan Gyngor Caerffili dîm ei hun sy'n gwneud cynnig am arian i fuddsoddi mewn ysgolion, fel y gwnaethon nhw ar gyfer:

Ysgol Uwchradd Islwyn

Idris Davies 3-18

Ysgol Gymraeg Cwm Rhymni – Y Gwyndy

Ysgol Trecelyn

Ysgol Gyfun y Coed-duon

Cae'r Drindod


- ✓ Mae £56.5 miliwn eisoes wedi'i wario ym Mand A y rhaglen rhwng 2014 a 2019. Byddai'r cynnig yn rhan o raglen Band B newydd

- ✓ Mae Band B yn canolbwyntio ar y canlynol:

- lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn cyflwr gwael
- gwneud yn siŵr bod gennym ni ysgolion o'r maint cywir, yn y lleoliadau cywir
- cynnig digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o ysgolion



Dyma lun o adeilad newydd **Ysgol Uwchradd Islwyn**, sef un o brosiectau Band A y Cyngor





Cyflwyniad

- Beth mae'r cyflwyniad yma yn ei gynnwys?
- Beth yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ?



Mae'r lluniau hyn yn dangos rhai enghreifftiau o'r hyn sydd wedi'i wneud





Cyflwyniad

- Beth mae'r prosiect yn ei gynnig?

Mae'r Cyngor yn cynnig gwneud y canlynol:

- ✓ **Estyniad i Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod drwy godi adeilad newydd a chreu ardal chwarae awyr agored newydd.**
- ✓ Bydd yr adeilad newydd arfaethedig yn darparu cyfleusterau ychwanegol i ateb y galw cynyddol am leoedd a darparu ystafelloedd dosbarth, ardaloedd ymyrryd arbenigol ac ardal chwarae awyr agored newydd.
- ✓ Bydd hefyd yn cynnwys neuadd hyblyg newydd, pwll hydrotherapi a chyfleusterau chwarae meddal i gynyddu'r ddarpariaeth ar y safle, a gaiff ei hystyried i'r gymuned ei defnyddio ar adegau addas yn unol ag amserlen y cwricwlwm.
- ✓ Gwneud yn siwr bod y safle presennol yn addas ar gyfer y dyfodol drwy sicrhau ei fod yn gallu darparu ar gyfer gofynion cymhleth y rheini ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac sy'n newid





Ymgynghoriad

- Gyda phwy arall rydyn ni'n siarad?

- ✓ Rhaid i'r Cyngor ddilyn deddfwriaeth Llywodraeth Cymru sef **Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** os bydd am wneud unrhyw newidiadau i ysgol.
 - ✓ Mae'r cynnig yn ymwneud â'r pennawd *'Gwneud newid a reoleiddir i ysgol a arbennig'*
 - ✓ Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i'r Cyngor ysgrifennu at sawl grŵp (ar ffurf llythyr neu e-bost) er mwyn dweud wrthyn nhw beth maen nhw'n bwriadu ei wneud, gan gynnwys:
 - Rhieni
 - Disgyblion
 - Penaethiaid, Staff a Llywodraethwyr yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnyn nhw
 - Awdurdodau Lleol cyfagos
 - Gweinidog Cymru
 - Cyngorau Cymuned a Thref lleol
 - ESTYN
 - ✓ Rhaid dilyn proses ymgynghori ffurfiol a chyhoeddi Dogfen Ymgynghori ar ffurf copi caled a fersiwn electronig
 - ✓ Caiff y broses gyfan ei hegluro'n llawn yn y Ddogfen Ymgynghori
- Bydd rhagor o wybodaeth i'w gweld yma: <https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb>





Ymgynghoriad

- Sut gallwch chi leisio eich barn?
- Pam ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n clywed eich barn?



- ✓ Mae sawl ffordd o roi eich barn i'r Cyngor –
 - Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
 - Cwblhau'r ffurflen ymateb sydd wedi'i hatodi i'r Ddogfen Ymgynghori a'i dychwelyd i Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghaerffili
 - Anfon eich sylwadau dros e-bost i Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn Ysgolionyr21ainGanrif@caerffili.gov.uk
- ✓ Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yma **yw hanner nos ddydd Llun 26 Hydref 2020**
- ✓ Mae eich barn yn bwysig ac rydyn ni'n croesawu unrhyw sylwadau o blaid neu yn erbyn y cynnig.
Dyma'ch cyfle chi i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i weithredu
- ✓ Bydd Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cyfarfod â'r Cyngor Ysgol. Mae lleisiau pobl ifanc yn bwysig iawn i'r gwaith o ddatblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu haddysg.



Cynnig

- Cefndir

- ✓ Ysgol Cae'r Drindod yw'r unig Ysgol Arbennig yn y Fwrdeistref
- ✓ Mae'n darparu Cyfleusterau Addysg a Chyfleusterau Arbenigol i'n disgyblion sydd fwyaf agored i niwed
- ✓ Mae'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed
- ✓ Mae 170 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yn yr ysgol ar hyn o bryd, a bydd disgwyl i'r nifer yma gynyddu
- ✓ Nid oes lle i ehangu'r adeilad fel y mae ar hyn o bryd





Cynnig

- Pam ein bod ni am gynnal y prosiect?

Cynllunio Lleoedd Ysgol	Cyflwr ac Addasrwydd	Prif Gynllun
<i>Rhaid i'r Cyngor ddarparu digon o le mewn ysgol i ddisgyblion:</i> ➤ Rhaid sicrhau bod digon o le i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ➤ Mae'r galw yn cynyddu ➤ Mae plant yn byw'n hirach gydag anghenion dysgu ac anghenion meddygol mwy cymhleth ➤ Mae Panel Lleoliadau'n cyfarfod i gyfrif nifer y lleoedd sydd eu hangen	<i>Rhaid i'r Cyngor wneud yn siŵr bod ysgolion yn addas at y diben:</i> ➤ Cafodd Ysgol Cae'r Drindod ei hadeiladu'n bwrpasol yn 1998 ➤ Rydym yn gwybod bod y safle wedi'i ailstrwythuro i wneud y defnydd gorau o'r safle gan gynnwys pwll hydrotherapi, gardd synhwyraidd ac ardaloedd byw'n annibynnol ➤ Mae'r Arolwg Cyflwr wedi gosod yr ysgol yng nghategori 'B'	<i>Mae gan y Cyngor Gynllun Adfywio ar gyfer ardal Caerffili:</i> ➤ Helpu Pobl – lleihau anghydraddoldeb a chreu cymunedau iachach, ffyniannus, cydlynol ➤ Helpu Busnes – creu cyfleoedd cyflogaeth ➤ Helpu Ansawdd Bywyd – darparu'r amgylchedd ffisegol cywir ➤ Cysylltu Pobl a Lleoedd – gwella cysylltedd





Ysgolion Eraill?

- A fydd hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?

- ✓ Ysgol Cae'r Drindod yw'r unig Ysgol Arbennig yn y Fwrdeistref
- ✓ Mae gan bob ysgol ei dalgylch ei hun. Os ydych chi'n byw yn yr ardal honno, gallwch fynychu'r ysgol honno os oes digon o lefydd ar gael
- ✓ Mae dalgylch Ysgol Cae'r Drindod yn cwmpasu'r Awdurdod cyfan
- ✓ Y Panel Lleoliadau Arbenigol sy'n penderfynu ar nifer y disgyblion a dderbynnir
- ✓ Mae darpariaeth lloeren mewn rhai ysgolion (Canolfannau Adnoddau Arbennig) ac ni fydd y ffordd y cânt eu gosod yn newid

Dalgylchoedd yr ysgol arbennig		
	1	Cae'r Drindod
	Ysgol Cae'r Drindod yw'r unig Ysgol Arbennig yn yr Awdurdod felly mae dalgylch yr ysgol yn cwmpasu'r fwrdeistref gyfan.	



Mae gan Ysgol Cae'r Drindod ddalgylch mawr.

Fe ddof i â fy mhêl





Beth yw'r Effaith?

- Sut bydd y prosiect yn effeithio ar bethau fel...
 - ✓ Addysg ac Ansawdd



- ✓ Caiff ansawdd a safonau eu monitro gan Estyn a'r Awdurdod Lleol
- ✓ Cafodd Ysgol Cae'r Drindod ei harolygu ddiwethaf yn 2019

Crynodeb o feirniadaeth: Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod – arolygwyd ym mis Mehefin 2019

MA1 – Safonau	MA2 – Lles ac agweddau at ddysgu	MA3 – Addysgu a phrofiadau dysgu	MA4 – Gofal, cymorth ac arweiniad	MA5 – Arweinyddiaeth a Rheolaeth
Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol



- ✓ Yn ystod (ac ar ôl) y cynnig, bydd yr Ysgol yn parhau i dderbyn cyngor a chymorth gan yr awdurdod lleol, y gwasanaeth gwella ysgolion ac unrhyw randdeiliaid perthnasol er mwyn helpu i wneud yn siŵr bod yr ysgol yn defnyddio dulliau arwain effeithiol ac yn darparu profiadau addysgu a dysgu o ansawdd uchel.



Beth yw'r Effaith?

- Sut bydd y prosiect yn effeithio ar bethau fel...
 - ✓ Staff



- ✓ Mae gan staff yr ysgol rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mewn amgylchedd dysgu diogel a chefnogol
- ✓ Mae aelodau da o staff yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda disgyblion ac yn gwella hinsawdd yr ysgol drwy annog rhieni a theuluoedd i fod yn rhan o addysg.
- ✓ Hoffai'r Cyngor gadw profiadau a chymorth aelodau presennol o staff yr ysgol
 - Nid oes unrhyw fwriad i ostwng lefelau staffio
 - Mae posibilrwydd y bydd nifer y staff yn cynyddu
- ✓ Hoffai'r Cyngor annog y gweithlu i ddatblygu drwy rannu arfer gorau.
- ✓ Bydd Corff Llywodraethu'r Ysgol hefyd yn aros yr un peth



Beth yw'r Effaith?

- Sut bydd y prosiect yn effeithio ar bethau fel...
 - ✓ Cyllid

- ✓ Mae'r Cyngor wedi neilltuo cyllid ar gyfer ei gyfran o'r prosiect (*Costau cyfalaf*) yn barod
- ✓ Caiff unrhyw gostau parhaus eu hystyried fel rhan o gynllunio cyllidebau wrth symud ymlaen (Costau refeniw)
- ✓ Mae cronfa wrth gefn o £5.766 miliwn i gefnogi dau brosiect cyntaf Band B
- ✓ Er bod y costau uwch cychwynnol wedi'u nodi i ehangu'r ysgol ar y safle cyfagos , cânt eu gwrthbwyso gan ddull gwell o reoli cyfleuster cyfunol
- ✓ Y Cyngor sy'n berchen ar y tir sydd wedi'i nodi ar gyfer y gwaith adeiladu ac mae angen ei drawsnewid o fod at ddefnydd 'hamdden' i ddefnydd 'addysgol'. Mae'r Cyngor yn ystyried lleihau effaith y cae sy'n cael ei golli drwy ddatblygu caeau cyfagos eraill






Beth yw'r Effaith?

- Sut bydd y prosiect yn effeithio ar bethau fel...
 - ✓ Yr Iaith Gymraeg

- ✓ Rhaid i'r Cyngor ddilyn Deddf **Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**, sy'n rhoi dyletswydd ar y Cyngor i asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal
- ✓ Mae'r Cyngor wedi llunio strategaeth pum mlynedd sef **y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** â'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- ✓ Mae gan yr ysgol gyfrifoldeb i ddeall a chofnodi iaith y cartref ar gyfer pob disgybl a mynd ati i gynnig darpariaeth Gymraeg os mai Cymraeg yw iaith y cartref
- ✓ Mae'r ysgol eisoes yn cyflogi sawl athro a chynorthwydd addysgu sy'n siarad Cymraeg
- ✓ Byddai darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol effeithiol yn gallu cael ei chynnig drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd teuluoedd sy'n siarad Cymraeg yn cael eu nodi





Beth yw'r Effaith?

- Sut bydd y prosiect yn effeithio ar bethau fel...
 - ✓ Teithio a'r Amgylchedd



- ✓ Rhaid i'r Cyngor ddilyn deddfwriaeth **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008** a darparu trafnidiaeth i ddisgyblion o oedran ysgol statudol
- ✓ Mae Polisi Trafnidiaeth y Cyngor yn helpu disgyblion i gyrraedd eu hysgol (h.y. yr ysgol agosaf) os byddan nhw'n byw dros 1.5 milltir i ffwrdd o ysgol Gynradd a dwy filltir o ysgol Uwchradd
- ✓ Mae'r safle newydd arfaethedig ar gyfer yr estyniad yn union gerllaw Ysgol Cae'r Drindod. Felly, ni fydd yn effeithio ar y pellter teithio i'r disgyblion sydd eisoes yn mynychu'r ysgol
- ✓ Er hynny, rhaid i'r Cyngor gynnal asesiad er mwyn helpu i ddeall sut y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar yr amser y mae'n ei gymryd i chi gyrraedd yr ysgol
- ✓ Er mwyn helpu'r amgylchedd, bydd y Cyngor yn ystyried creu llwybrau cerdded a seiclo diogel i'r ysgol yn ogystal ag ardaloedd gollwng newydd
- ✓ Bydd y rhan newydd o'r adeilad yn cefnogi dulliau carbon isel ac yn ecogyfeillgar, a bydd y dyluniadau'n ystyried elfennau yn cynnwys paneli solar, goleuadau awtomatig, gwydr a systemau awyru arbennig a gwell ardaloedd yn yr awyr agored



Beth yw'r Effaith?

- Sut bydd y prosiect yn effeithio ar bethau fel...
 - ✓ Cydraddoldebau

- ✓ Mae gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol
- ✓ Mae'r Cyngor yn gweithio i fynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu a hyrwyddo perthnasau da a pharch at eraill yn ein cymunedau
- ✓ Mae'r Asesiadau o Effaith yn ffordd o ddangos sut y mae prosiectau a pholisïau'n sicrhau mynediad cyfartal i'n holl wasanaethau
- ✓ Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg wedi'i gynnal
- ✓ Yn ogystal â hyn, mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal yn canolbwyntio ar y canlynol:
 - Y gyfran o ddisgyblion yn y dalgylch
 - Y Cyfleusterau a'r Gwasanaethau a ddarperir yn yr ysgol bresennol a'r hyn a fydd yn digwydd os byddan nhw'n symud
 - Ble mae'r ysgolion agosaf eraill a pha mor bell ydyn nhw
 - Sut byddai'r cynnig yn effeithio ar iechyd a lles
 - Unrhyw oblygiadau ehangach ar drafnidiaeth a diogelwch cymunedol
- ✓ Mae'r fersiwn llawn o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i'w gweld yn y Ddogfen Ymgynghori llawn



I ddarllen yr Asesiadau o Effaith, ewch i:

<https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb>



Beth yw'r Effaith?

- Sut bydd y prosiect yn effeithio ar bethau fel...
 - ✓ Cyfleusterau Arbenigol / Anghenion Dysgu Ychwanegol

- ✓ Mae gan bob dysgwr hawl i gael cyfle cyfartal ac addysg o ansawdd uchel
- ✓ Mae gan y Cyngor Strategaeth ar gyfer darparu cymorth arbenigol i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Ychwanegol neu anabledau.
- ✓ Un o'r pethau pwysicaf yw gwneud yn siŵr bod y plant yn agos i'w cartrefi a pheidio â theithio y tu allan i'r Fwrdeistref
- ✓ Mae nifer y plant ag anghenion sy'n gofyn am ddarpariaeth arbenigol yn cynyddu
- ✓ Bydd y cynnig hwn yn ehangu'r Ysgol Arbennig i ddarparu cymorth ychwanegol a diwallu'r angen yn lleol ar gyfer ein disgyblion sydd fwyaf agored i niwed
- ✓ Caiff yr adeilad newydd ei adeiladu i safon **Bwletin Adeiladu 104** er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyfleusterau'n addas i bawb
- ✓ Bydd cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gael i'r staff gydweithio arnyn nhw





Beth yw'r Effaith?

- Sut bydd y prosiect yn effeithio ar bethau fel...
 - ✓ Y Gymuned

✓ Yr Effaith ar y Gymuned

- Caiff yr estyniad newydd ei ddylunio gydag ardaloedd wedi'u 'rhannu'
- Bydd y gymuned yn cael ei hannog i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael h.y. y Pwll/ Ardal Chwarae Meddal
- Bydd y gweithgareddau yn yr ysgol bresennol yn parhau

✓ Budd i'r Gymuned

- Mae gan bob prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif dargedau i gefnogi'r gymuned
- Fel rhan o'r sgôr 'ansawdd' yn y broses dendro, caiff y canlynol eu hystyried:
 - Recriwtio a hyfforddi'n lleol
 - Cyflenwyr lleol
 - Mentrau Cymunedol a mentrau Addysg h.y. arddangosiadau mewn ysgolion
 - Lleihau gwastraff, diogelu cynefinoedd a bioamrywiaeth





Beth yw'r Manteision?

- Beth fydd y manteision a'r anfoneision?
- A oes unrhyw risgiau?



Dim ond rhai enghreifftiau
sydd wedi'u nodi fan hyn.
Mae'r rhestr lawn yn y
Ddogfen Ymgynghori

Manteision	Anfoneision	Risgiau
➤ Lle i fwy o ddisgyblion a gwasanaethau eraill megis cyfleusterau lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y safle presennol ➤ Gwell hygyrchedd ac effeithlonrwydd ynni ➤ Ysgol flaenllaw fwy ar gyfer addysg Ysgol Arbennig ➤ Ardaloedd wedi'u 'rhannu' er mwyn i'r gymuned allu ei defnyddio	➤ Er y bydd gwaith adeiladu'n cael ei gynnal wrth ymyl yr ysgol, byddwn yn ceisio amharu ar yr ysgol cyn lleied â phosibl ➤ Er mai'r Cyngor sy'n berchen ar y darn presennol o dir i'w ddatblygu, bydd angen i ni ei newid o ddefnydd 'hamdden' i 'addysgol' ➤ Bydd yr estyniad newydd yn golygu 'cyfnod pontio' i'r disgyblion	➤ Cynnal Proses Gynllunio ar Wahân ➤ Y cyllid i dalu am y costau ychwanegol ac unrhyw gostau eraill fydd yn codi ➤ Argaeledd contractwyr ➤ Tywydd garw ➤ Cyflawni Buddiannau (diwallu anghenion y defnyddwyr terfynol)



Beth yw'r Manteision?

- Pam dewis y prosiect yma?

- ✓ Mae angen i'r Cyngor ystyried sawl opsiwn ar gyfer pob cynnig
- ✓ Caiff sgôr ei roi ar gyfer pob opsiwn gan ddefnyddio rhestr 'siopa' o feini prawf i ddod o hyd i'r opsiwn gorau o ran Strategaeth, Addysg, Hygyrchedd, Cyllid a'r Amgylchedd

Opsiwn	Disgrifiad
Opsiwn 1	Gwneud dim
Opsiwn 2	Ailstrwythuro'r ysgol bresennol
Opsiwn 3	Adeiladu ysgol gynradd newydd ar safle gwahanol
Opsiwn 4	Adeiladu estyniad newydd i'r ysgol bresennol i greu 80 o leoedd ychwanegol
Opsiwn 5	Adeiladu ysgol newydd ar safle gwahanol ar gyfer yr holl ddarpariaeth a nodwyd a charfan lawn o 260 o ddisgyblion (disgyblion presennol a'r disgyblion ychwanegol)



- ✓ Cafodd yr opsiynau a restrir uchod eu hystyried ar gyfer y cynnig hwn
- ✓ Opsiwn 4 a gafodd y sgôr uchaf gyda 101 o bwyntiau
(Opsiwn 5 = 87 ddaeth yn ail)



Y Camau Nesaf?

- Am ba mor hir y byddwn ni'n casglu barn pobl?
- Beth fydd yn digwydd nesaf?

✓ Bydd cyfnod yr ymgynghoriad yn dechrau ddydd Llun 14 Medi 2020

- ✓ Dyma'r Fersiwn Gryno Syml i Blant a Phobl Ifanc
- ✓ Mae'r dogfennau llawn ar gael ar wefan y Cyngor
- ✓ Gellir hefyd gofyn am fersiynau wedi'i hargraffu a fformatau eraill drwy ffonio: **01443 864817**

✓ Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw hanner nos ddydd Llun 26 Hydref 2020

- ✓ Mae'r Cyngor yn dilyn y broses yn unol â **Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018**
 - ✓ Cyfnod ymgynghori o 42 diwrnod
 - ✓ Llunio a chyflwyno Adroddiad ar yr Ymgynghoriad i'r cabinet yn ogystal â sylwadau o'r ymgynghoriad yma
 - ✓ Y cabinet fydd yn penderfynu ar y camau nesaf.
 - ✓ Os bydd yn cytuno, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi gyda 28 diwrnod i gyflwyno gwrthwynebiadau
 - ✓ Creu Adroddiad Gwrthwynebu (os bydd gwrthwynebiadau'n cael eu derbyn) a'r penderfyniad terfynol gyda'r Cabinet





Beth yw eich barn chi?


- ✓ Mae eich sylwadau'n bwysig
- ✓ Hoffem glywed eich barn am y newidiadau rydym wedi'u cynnig yn y ddogfen hon
- ✓ Caiff pob barn ei chroesawu o blaid neu yn erbyn y cynnig.
- ✓ Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y cynnig, gallwch wneud hyn drwy wneud y canlynol:
 - Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
 - Cwblhau'r ffurflen ymateb sydd wedi'i hatodi i'r ddogfen hon a'i dychwelyd i Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghaerffili
 - Anfonwch eich e-bost i Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif
- ✓ Ar gyfer y cynnig hwn, byddwn yn cynnal ymarfer ymgynghori ar bapur a dim ond sylwadau ysgrifenedig y gallwn eu derbyn. Rhaid i chi gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeiriad post!





Rhagor o Wybodaeth

Bydd adran yn
cynnwys
cwestiynau
cyffredin hefyd ar
y wefan. Ewch i
gael cip arni



Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif **Cyngor Caerffili** **Caerphilly Council's** 21st Century Schools Programme



Ymateb i Ymgynghoriad 'Cae'r Drindod'

d/o Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif
Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

Ysgolionyr21ainGanrif@caerffili.gov.uk
<https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb>



Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

